cplll

Cronfa Bensiwn DYFED Pension Fund

# Ymddeoliad Salwch

Ebrill 2026



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Contents

Cyflwyniad ........ 2
Sut mae ymddeoliad salwch yn cael ei asesu? ........ 2
Beth yw'r broses? ........ 2
Beth yw'r gwahanol haenau? ........ 2
Haen 1 ........ 2
Haen 2 ........ 3
Haen 3 ........ 3
A fydd eich achos yn cael ei adolygu? ........ 3
Beth os ydych chi eisoes wedi rhoi'r gorau i dalu i'r Cynllun? ........ 3
Hawl Apêl ........ 4
Nodwch ........ 4
Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o Wybodaeth? ........ 4
Ymwadiad ........ 4

## Cyflwyniad

Os oes gennych gyfanswm aelodaeth o ddwy flynedd o leiaf, (neu os ydych wedi trosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i'r Cynllun) a bod eich **Cyflogwr** yn dod â'ch cyflogaeth i ben oherwydd gwaeledd, gellir talu eich buddion pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ar unwaith, heb unrhyw ostyngiad am eu talu'n gynnar cyn eich Oedran Pensiwn Arferol (OPA).

Mae buddion salwch yn cael eu talu ar unrhyw oedran, ac weithiau cânt eu **cynyddu** i roi ystyriaeth i'ch gwaeledd. Caiff y cynnydd y mae modd ei ddyfarnu ei rannu'n haenau, yn dibynnu ar ba mor debygol ydych chi o fedru gwneud gwaith cyflogedig.

## Sut mae ymddeoliad salwch yn cael ei asesu?

Mae'n rhaid i'ch Cyflogwr gael barn gan Ymarferydd Meddygol Cofrestredig Annibynnol (YMCA) cymeradwy sy'n gymwys mewn meddygaeth iechyd galwedigaethol. Yna mae'n rhaid i'ch cyflogwr fod yn fodlon:

- eich bod yn barhaol analluog i gyflawni'ch swydd; ac
- **NA** fyddwch yn gallu ymgymryd ag unrhyw **<u>waith cyflogedig</u>** yn syth (cyflogaeth â thâl am ddim llai na 30 awr yr wythnos am ddim llai na 12 mis).

Nodwch fod 'parhaol analluog' yn golygu hyd at eich Oedran Pensiwn Arferol (OPA), sydd ar hyn o bryd yn gysylltiedig â'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (OPW) o dan Gynllun 2014, ac fe allai felly newid yn y dyfodol.

## Beth yw'r broses?

Bydd eich Cyflogwr yn cyfeirio eich achos at yr YMCA, a fydd wedyn yn rhoi barn yn seiliedig ar y dystiolaeth feddygol a gyflwynwyd gan eich Cyflogwr, Meddyg Teulu ac unrhyw Feddyg Ymgynghorol neu Arbenigwr a welsoch mewn cysylltiad â'ch gwaeledd.

Efallai y bydd gofyn i chi gael **Archwiliad Meddygol** gan yr YMCA i asesu'ch cyflwr.

Ar ôl yr asesiad, anfonir **tystysgrif** at eich Cyflogwr, a fydd yn nodi barn yr YMCA ynghylch a ydych yn barhaol analluog i wneud eich swydd, y tebygolrwydd o ymgymryd ag unrhyw waith cyflogedig, a'r haen debygol o fuddion y gellid ei dyfarnu (os o gwbl).

## Beth yw'r gwahanol haenau?

### Haen 1

Os mai barn yr YMCA yw eich bod yn annhebygol o allu gwneud gwaith cyflogedig cyn eich OPA, y **cynnydd** i'ch pensiwn fydd swm y pensiwn Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio

(CARE) y byddech wedi ei gronni o’r diwrnod ar ôl dyddiad eich ymddeoliad salwch hyd at eich OPA.

Mae'r cynnydd hwn yn seiliedig ar eich Tâl Pensiynadwy Tybiedig (TPT), sy'n gyfartaledd o'r tâl pensiynadwy y byddech wedi'i ennill yn ystod y **3 mis cyflawn** (neu 12 wythnos os oeddech yn cael eich talu’n wythnosol) cyn eich dyddiad gadael.

### Haen 2

Os mai barn yr YMCA yw eich bod yn annhebygol o allu gwneud gwaith cyflogedig cyn pen **3 blynedd** o adael eich swydd, ond mae'n debygol y byddech yn gallu gwneud gwaith cyflogedig cyn eich OPA, y cynnydd a roddir yw **25%** o’r hyn a roddir o dan Haen 1 h.y. 25% o swm y pensiwn CARE y byddech wedi'i gronni o'r diwrnod ar ôl dyddiad eich ymddeoliad salwch hyd at eich OPA.

### Haen 3

Os mai barn yr YMCA yw eich bod yn debygol o allu gwneud gwaith cyflogedig o fewn **3 blynedd** o adael eich swydd neu cyn eich OPA (os yw’n gynt), bydd y buddion yr ydych wedi'u cronni hyd at ddyddiad eich ymddeoliad salwch yn dod yn daladwy **heb** unrhyw gynnydd. Yn wahanol i Haen 1 a 2, **nid** yw'r dyfarniad buddion hwn yn daladwy am eich oes. Bydd pensiwn Haen 3 yn stopio ar unwaith ar ôl i chi ddechrau gwaith cyflogedig neu ar ôl **uchafswm o 3 blynedd**.

## A fydd eich achos yn cael ei adolygu?

Ddim o dan Haen 1 neu 2, ond bydd eich Cyflogwr yn eich cyfeirio am adolygiad os cewch bensiwn Haen 3. Yr YMCA fydd yn cynnal yr adolygiad ar ôl i chi fod yn derbyn eich buddion am **18 mis**, fel y gellir asesu eich cyflwr afiechyd i weld a yw wedi gwella neu waethygu. Os yw eich salwch wedi gwaethygu, efallai y byddwch yn gymwys i'ch buddion gael eu cynyddu i Haen 2. Os yw eich cyflwr wedi gwella, bydd eich pensiwn yn stopio cael ei dalu o ddyddiad yr asesiad.

Eich cyfrifoldeb chi yw dweud wrth eich cyn Gyflogwr os byddwch yn ymgymryd ag unrhyw fath o gyflogaeth tra bod eich pensiwn Haen 3 yn cael ei dalu i chi. Yna bydd eich cyn Gyflogwr yn penderfynu a yw'r gyflogaeth hon yn cwrdd â rheolau gwaith cyflogedig. **Nodwch y bydd unrhyw ordaliad pensiwn yn cael ei adennill gan y Gronfa Bensiwn**.

## Beth os ydych chi eisoes wedi rhoi'r gorau i dalu i'r Cynllun?

Os ydych wedi rhoi’r gorau i dalu i mewn i’r CPLlL ac wedi gohirio eich buddion (eu gohirio tan eich OPA), mae gennych dal yr hawl i ofyn i’r buddion hyn gael eu talu ar sail gwaeledd (waeth faint oed ydych chi). Dylech gysylltu â'ch cyn Gyflogwr i wneud y cais hwn. Yna caiff eich achos ei asesu yn yr un modd gan YMCA, fodd bynnag, **ni** fyddwch yn gymwys i

dderbyn unrhyw gynnydd i'ch buddion, gan nad oes haenau o fuddion salwch i aelodau gohiriedig.

## Hawl Apêl

Os ydych chi'n anfodlon gyda’r dyfarniad buddion salwch, mae gennych hawl i apelio o dan y Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (GDAM). Dylid apelio yn ysgrifenedig cyn pen **6 mis** o ddyddiad penderfyniad eich Cyflogwr a'i anfon at y person a nodwyd gan eich Cyflogwr. Cysylltwch â'ch **Cyflogwr** i gael rhagor o wybodaeth am y broses GDAM.

### Nodwch

Os ydych wedi derbyn pensiwn Haen 1 neu Haen 2 o'r CPLlL o'r blaen neu wedi cael pensiwn salwch CPLlL cyn 1 Ebrill 2008, mae’n bosib y byddai unrhyw gynnydd yn cael ei gapio neu na fyddai’n berthnasol hyd yn oed, pe byddech yn ymddeol eto am resymau gwaeledd.

Hefyd, os oeddech yn derbyn pensiwn Haen 3 sydd wedi dod i ben ers hynny wrth i'ch cyflwr wella neu fod y cyfnod 3 blynedd wedi dod i ben, **ni fyddwch** yn gymwys i dderbyn dyfarniad Haen 3 arall fel aelod o'r CPLlL, hyd yn oed os cewch eich cyflogi gan Gyflogwr gwahanol neu gyda Chronfa Bensiwn arall.

Os ydych chi'n **aelod ad-daliad gohiriedig** ac nad oeddech wedi bod yn aelod yn ddigon hir i fod yn gymwys i gael buddion gohiriedig, nid ydych yn gymwys i dderbyn taliad unrhyw fuddion oherwydd gwaeledd.

## Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o Wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn.

## Ymwadiad

Ni all y Gronfa Bensiwn ddarparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y ffeithlen hon, efallai yr hoffech gael cyngor ariannol annibynnol er mwyn gwneud penderfyniad deallus.

Gallai’r cyrff hyn eich helpu chi:

Unbiased: [https://unbiased.co.uk/](https://unbiased.co.uk/) Gwasanaeth Cyngor Arian: [https://www.moneyadviceservice.org.uk/cy/articles/choosing-a-financialadviser](https://www.moneyadviceservice.org.uk/cy/articles/choosing-a-financialadviser)